Rhanbarth Coedwigo Coed y Mynydd
Gwydyr Uchaf
Llanrwst
Conwy
LL26 0PN

Cyf: FM32/6/3

At:

John Ratcliffe	Paul Whalley
Gwyn Jones	Dave Cowley
Wil Sandison	David Hewett
Dave Rees	Enid Mummery
Peter Charlston	Simon Hunt
Christian Branch	Neil Johnstone
Hugh Knott	Kim Burnham
Robert Williams	

Cc: Alun Morgan Owen
Myra Evans - Clerc, Cyngor Cymuned Rhosyr

CYFARFOD PANEL AMGYLCHEDDOL NIWBWRCH
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd lau 28 Hydref 2004
yn Institiwt Prichard Jones, Niwbwrch

CADEIRIWYD Y CYFARFOD gan Martin Gould

1. YMDDIHEURIADAU: - John Ratcliffe, Rhod Watt, Paul Whalley, Kim Burnham.

2. NEWID YN STAFF Y COMISIWN COEDWIGAETH (NIWBWRCH) – dychwelodd Martin Gould i'w waith blaenorol yn Rheolwr Cadwraeth Coed y Mynydd (Gogledd). Kim Burnham bellach yw'r Rheolwr Ardal Leol tros Ynys Môn yn ogystal ag Ardal Leol Eryri (Gwydyr). Robert Williams yw fforman Kim a Niwbwrch yw prif faes ei gyfrifoldeb.

3. PWYNTIAU GWEITHREDU – (o gyfarfod/-ydd blaenorol)

<u>DEUNYDD ARCHIF</u> – Roedd Jane Jones wedi cysylltu yn ddiweddar â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Dywedwyd y byddai'r Crynoddisgiau yn y post iddi ac y dylai eu derbyn erbyn dydd Mawrth 26 neu ddydd Mercher 27 yr wythnos hon. Gwaetha'r modd, dal heb gyrraedd yr oedden nhw erbyn y cyfarfod.

Y disgwyl yw y bydd y CC yn derbyn yr holl ddisgiau yn yr wythnos neu ddwy nesaf. Cyn gynted ag y cyrhaeddant, fe'u rhoir i Enid i'w harddangos yn yr Institiwt.

<u>Gweithredu: - MG</u>

Gobaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cael y deunydd sydd ganddyn nhw wedi'i roi ar ffurf ddigidol a mynegai iddo, rywdro y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, mae'r deunydd archif ar gael ym Mangor.

<u>Gwnaethpwyd</u>

PROSIECT GORSAF GOED- o ganlyniad i'r ymgynghori yn ddiweddar ynghylch Cynllun Dylunio'r Coed a bod y Comisiwn Coedwigaeth yn amau a oes cyflenwad, ni eir ymlaen â'r Prosiect hwn yn y dyfodol agos.

Gwnaethpwyd

ADRODDIAD MYNEDIAD YMDDIRIEDOLAETH FIELDFARE – nid oes modd symud ymlaen nes cael cytundeb ar Gynllun Dylunio'r Coed.

Gwnaethpwyd

CYFEIRIADWYR ERYRI – cadarnhaodd Robert Williams i ddigwyddiad arfaethedig 2004 gael ei gynnal ddydd Sadwrn 24 o fis Hydref. Cytunwyd ar hyn rhwng Cyfeiriadwyr Eryri a Kim Burnham.

Gwnaethpwyd

PROSIECT LLYS RHOSYR - bron yn barod i gwblhau'r adroddiad terfynol ond wedi methu cysylltu â'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill oherwydd yr ymgynghori ar Gynllun Dylunio'r Coed (FDP). Aiff yr adroddiad i Bwyllgor Cydlynu Ail-ddylunio Coed Niwbwrch, unwaith iddo gael ei sefydlu.

Gweithredu: - NJ

LÔN LAS CEFNI – dim mwy o ddatblygiadau hyd yn hyn ond y gobaith yw gorffen erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

Daw'r rhan o Lôn Las Cefni drwy'r goedwig yn gyfrifoldeb Adran Briffyrdd Cyngor Ynys Môn. Dim ond am gynnal a chadw ffyrdd y goedwig i safon sy'n briodol i ddibenion coedwigo y bydd cyfrifoldeb y Comisiwn Coedwigaeth . Ni fydd y Comisiwn Coedwigaeth yn gyfrifol am ddifrod a achosir i ffyrdd y goedwig gan geffylau.

Mae gofyn llunio llythyr ffurfiol yn amlinellu maes cyfrifoldeb pob un o'r cyrff.

Gweithredu: - HK & KB

AIL-DDYLUNIO COED NIWBWRCH - bellach, rhoddwyd y 'Weledigaeth' arfaethedig o'r neilltu. Cynhelir cyfarfod arall ar 8 Tachwedd, 2004 ar gyfer Cymuned Rhosyr yn unig.

Anfonir adroddiad llawn o'r ymgynghori i bob un parti; bydd ar gael yn ogystal ar wefan Y Comisiwn Coedwigaeth.

Sefydlir Pwyllgor Cydlynu unwaith y cytunir ar Gylch Gorchwyl. Y Pwyllgor fydd cynrychiolwyr Y Comisiwn Coedwigaeth / Cyngor Cefn Gwlad Cymru / Cyngor Cymuned Rhosyr / Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn y blaen, a bydd yn gyfrifol am nodi'r pynciau a rhoi cyngor ynghylch y dewisiadau ar gyfer ail-ddylunio'r Coed/y waren. Rhagwelir y caiff y cynllun terfynol ei orffen ymhen dwy flynedd.

Gweithredu: - JR, WS, KB

PROSIECT PEILOT AILGYFLWYNO'R WIWER GOCH - rhywdro rhwng Ebrill 8 - 9 fandaleiddiwyd tair corlan. O ganlyniad i hyn, gwnaed y penderfyniad i ollwng 3 gwiwer lawn maint, 1 fenyw a 2 wryw, rhag ofn i'r troseddwyr ddod yn eu holau i symud (neu i ladd) gweddill yr anifeiliaid yn y cewyll.

Er nad oedd unrhyw arwydd fod y wiwer fenyw yn feichiog tra oedd yn y gorlan, unwaith iddi gael ei gollwng, rhoddodd enedigaeth i dri thorllwyth (7 o rai bach).

Eleni, ganwyd 23 o rai bach i'r benywod magu â phob un ohonynt wedi'i ollwng i'r coetir erbyn diwedd yr hydref.

Parhau mae'r rheoli ar y wiwer lwyd yn Niwbwrch ac mae'n cael gwared â rhwng 1 a 2 o rai llwyd bob tymor trapio. Mae trapio'n dal i gael ei wneud mewn coetiroedd eraill ar draws Môn.

Gweithredu: - HK

PROSIECT BIO-DANWYDD – mae ymgynghorwyr yn gweithio ar astudiaeth o'r dichonoldeb a byddant yn llunio adroddiad drafft a gyflwynir i Gyngor Cymuned Rhosyr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth; ymgynghorir yn ogystal â'r gymuned leol. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad terfynol yn barod erbyn mis Mawrth 2005.

Gweithredu: - SH

RHEOLWR ARDAL GYMUNEDOL - cadarnhaodd Peter fod Rheolwr Ardal Gymunedol tros ardal Niwbwrch. O Gaerwen y mae'n gweithio ac mae eisoes wedi cysylltu â Chyngor Cymuned Rhosyr.

Awgrymwyd bod y CC yn cysylltu ag ef. Mae modd cysylltu ag ef ar 07887 691 553; ei enw yw Rob Williams.

Gweithredu: - RW

MARCHOGAETH YNG NGHOED NIWBWRCH – Mae Maureen Parry-Williams (Niwbwrch) bellach wedi sefydlu grŵp o 6-7 o bobl i redeg Cymdeithas Farchogaeth Niwbwrch. Fe fyddant yn gyfrifol am roi trwyddedau marchogaeth ar gyfer y coed a'r traeth.

CCC sy'n rheoli marchogaeth ar y traeth ac ni chaiff mwy na 25 trwydded eu rhoi mewn blwyddyn. Cynyddwyd cyfanswm y trwyddedau a gaiff eu rhoi ar gyfer marchogaeth yn y coed i 50 y flwyddyn.

Rhoddir tagiau i'r sawl sy'n dal trwydded i'w gwneud yn haws adnabod marchogion y mae ganddynt awdurdod; cânt eu rhoi wrth gyfrwy'r ceffyl.

Mynegwyd pryder ynghylch nifer y marchogion sy'n defnyddio'r coed yn ystod y penwythnos a bod diffyg presenoldeb ar ran y CC yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithredu: - RW

PWYNTIAU GWEITHREDU 28 HYDREF: -

4. CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) YNYS MÔN – caiff cynllun rheoli AHNE ei lansio'n swyddogol ar 23 Tachwedd. Mae'n ganlyniad tair blynedd o waith yn ymgynghori ag ysgolion, cymunedau/cyrff lleol a.y . y b., ac mae'n cynnwys 21,500 hectar o'r ynys. Bydd yn darparu cynllun gweithredu 5 mlynedd i'r AHNE.

Yn ddiweddar, cyflogwyd Linda Lee yn Warden Cymunedol AHNE i gynorthwyo'r gwasanaeth Cefn Gwlad ac AHNE i roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Gwnaethpwyd

AROLWG O FADFALL Y TWYNI – gwnaed arolwg o fadfall y twyni yng Nghoed Niwbwrch yn ystod gwanwyn 2004 o ganlyniad i honiadau, nas cadarnhawyd, i fadfallod y twyni efallai gael eu gweld. Nid oes yr un cofnod hanesyddol o fadfall y twyni yn yr ardal hon ond mae cofnodion ar gyfer Llandudno ac Aberdyfi.
Gwaetha'r modd, ni ddaethpwyd o hyd i'r un fadfall y twyni y tro hwn. Ni olyga hyn nad oes madfall y twyni yn Niwbwrch ond bydd gofyn mwy o waith arolygu.

Caiff adroddiad ei lunio maes o law.

Gweithredu: - DC

UFA

COFNODION I GYNGOR CYMUNED RHOSYR - Ymddiheurodd Martin Gould am beidio ag anfon copi o Gofnodion y cyfarfod diwethaf i Gyngor Cymuned Rhosyr fel a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Caiff cofnodion eu hanfon yn y dyfodol.

Gweithredu: - MG

CAU FFORDD Y TRAETH - Robert Williams – byddai'r ffordd o'r cwrbyn dŵr (y peiriant talu) i faes parcio'r traeth, yn cael ei chau am gyfnod byr ar 5 Tachwedd er mwyn medru gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol i'r wyneb tarmac.

Gweithredu: - RW

FFILMIO AR YNYS LLANDDWYN - Wil Sandison –rhoddasid caniatâd ar gyfer hyn gan GYM a bellach, daeth y ffilmio i ben. Cliriwyd pob tystiolaeth o'r ffilmio o'r safle ac mae yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.

Adroddwyd i gyfanswm o filiwn o bunnau fynd i mewn i'r gymuned leol o ganlyniad i'r ffilmio; yn ogystal â hyn, cawsai to llechi newydd ei roi ar fythynnod y peilotiaid.

Gwnaethpwyd

LLIFOGYDD YM MHENLON –esboniodd Wil Sandison mai canlyniad trafferthion gyda draenio'r tir (2 gwrs dŵr yn rhedeg i 1) oedd y llifogydd yn ddiweddar ac nid problem yn ymwneud â Llyn Rhos Ddu.

Gwnaethpwyd

Dyddiad y cyfarfod nesaf: - 17 Mawrth 2005.